# Amodau Cydnabod: Cipolwg ar y prif wahaniaethau

**Ar gyfer yr Amodau Cydnabod sydd mewn grym o 1 Hydref 2020**

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae CCEA Regulation, Ofqual a Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi 'Amodau Cydnabod' ar gyfer y cymwysterau a'r sefydliadau maen nhw'n eu rheoleiddio. Gelwir y rhain yn Amodau Cydnabod Cyffredinol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac Amodau Cydnabod Safonol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob sefydliad dyfarnu cydnabyddedig[1] sicrhau ei fod ef, a'i holl gymwysterau rheoleiddiedig, yn cwrdd â'r Amodau[2].

1.2 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r Amodau'n debyg i raddau helaeth – er bod rhai gwahaniaethau sy'n adlewyrchu ein cyd-destunau polisi, deddfwriaethol a chenedlaethol. Ceir hefyd Amodau sy'n gwahaniaethu o reoleiddiwr i reoleiddiwr o ganlyniad i wahanol benderfyniadau polisi pob rheoleiddiwr.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y prif wahaniaethau rhwng ein priod Amodau yn seiliedig ar yr Amodau a ddaw i rym o fis Hydref 2020. Rydym ni'n bwriadu adolygu'r ddogfen a'i diweddaru fel bo angen.

1.4 Nid yw'n cynnwys cyfeiriadau at Amodau sydd â dim ond gwahaniaethau bychain, heb sylwedd gan y tri rheoleiddiwr, er enghraifft oherwydd eu bod:

- wedi eu rhifo'n wahanol;
- yn cyfeiro at y gwahanol reoleiddwyr, y gwahanol systemau TG maen nhw'n eu defnyddio, neu'r ddeddfwriaeth maen nhw'n ei gweithredu; neu
- yn defnyddio'r term "corff dyfarnu" yn hytrach na "sefydliad dyfarnu".

1.5 Rydym ni wedi cynhyrchu'r ddogfen hon fel ymateb i adborth gan sefydliadau dyfarnu sy'n nodi y byddai'n ddefnyddiol bod y gwahaniaethau rhwng ein 3 set o Amodau'n cael eu crynhoi mewn dogfen. Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cymorth i sefydliadau dyfarnu i gydymffurfio â'n priod Amodau.

1.6 Fodd bynnag, nid yw hyn yn newid rhwymedigaeth y sefydliadau dyfarnu i sicrhau eu bod yn ymwybodol ac yn cydymffurfio â'r fersiwn fwyaf diweddar o'n Hamodau, ac unrhyw Ddogfen Reoleiddiol arall. Lle mae Amodau rheoleiddwyr yn amrywio, fe fydd angen i gyrff dyfarnu fyfyrio ar y gwahaniaeth hwnnw ac ystyried y goblygiadau iddyn nhw.

---

[1] 'Cyrff dyfarnu' yw'r term a ddefnyddir gan Cymwysterau Cymru ac yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

[2] Mae'n rhaid i sefydliadau dyfarnu hefyd gydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill mae'r rheoleiddwyr yn eu nodi, fel y rheiny sydd i'w gweld mewn Dogfennau Rheoleiddiol.

# Amodau Cydnabod: Cipolwg ar y prif wahaniaethau

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif wahaniaethau rhwng Amodau pob rheoleiddiwr o 1 Hydref 2020.

| | |
|---|---|
| **Amod A1 – Addasrwydd ar gyfer cydnabyddiaeth barhaus** | |
| A1.2(d) | Mae geiriad Ofqual a CCEA Regulation o'r Amod hwn yn cyfeirio at fod yn fethdalwr. Mae Amod Cymwysterau Cymru yn cyferio at fod yn destun Digwyddiad Methdaliad (term a ddiffinir yn ei Amod J). |
| A1.3(a) | Mae geiriad y tri rheoleiddiwr yn wahanol er mwyn adlewyrchu'r dulliau gweithredol gwahanol sydd gennym ni o sut mae sefydliadau dyfarnu'n cyflwyno cymwysterau inni a chofrestrau/basau data ein cymwysterau. |
| **B2 – Datganiad Cydymffurfiaeth** | |
| B2.5 | Mae'r Amod hwn yn unigryw i CCEA Regulation. Mae'n gofyn am gyflwyno adroddiad ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda Datganiad Cydymffurfiaeth blynyddol sefydliad dyfarnu. |
| **B5 – Cynrychiolaethau sy'n ymwneud â Chymwysterau** | |
| B5.1 | Mae geiriad Cymwysterau Cymru o'r Amod hwn yn wahanol oherwydd y tri phrif gategori o gymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, h.y. Cymeradwy, Dynodedig ac Arall a Reoleiddir. |
| **D6 – Rheoli newid statws cymwysterau neu dynnu cymwysterau yn ôl** | |
| D6.2 – D6.7 | Mae Amodau D6.2 a D6.3 Cymwysterau Cymru yn cynnwys gofynion ynghylch rheoli unrhyw newid mewn statws cymwysterau Cymeradwy, Dynodedig ac Arall a Reoleiddir.<br>Mae'r geiriad sy'n dilyn yn wahanol i Amodau Ofqual a CCEA Regulation er mwyn adewyrchu gofynion Cymwysterau Cymru ynglŷn â statws cymhwyster. |
| **D8 (Cymwysterau Cymru) – Dyfarnu Cymwysterau Cymeradwy y tu allan i Gymru** | |
| D8.1 | Mae'r Amod hwn yn unigryw i Cymwysterau Cymru. Mae'n nodi gofynion dyfarnu cymwysterau Cymeradwy y tu allan i Gymru. |
| **D8 (Ofqual) – Cydymffurfio â darpariaethau arbed a phontio ar ôl i achrediad ddod i ben** | |
| D8.1 | Mae'r Amod hwn yn unigryw i Ofqual. Mae'n gofyn i sefydliad dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau arbed a phontio a wnaed gan Ofqual pan ddaw achrediad cymhwyster i ben. |
| **E3 – Cyhoeddi manyleb cymhwyster** | |
| E3.6 - E3.8<br>(Amodau'n dod i rym) | Mae'r Amodau hyn yn caniatáu i ofynion sy'n ymwneud â chynnwys gwybodaeth am lefel, maint a gwerthoedd credyd cymhwyster mewn manylebau cymhwyster i ddod i rym yn raddol. Nid yw Ofqual a CCEA Regulation wedi cyflwyno'r holl ofynion hyn ar gyfer yr holl gymwysterau maen nhw'n eu rheoleiddio eto.<br>Nid oes angen y trefniadau pontio hyn yng Nghymru bellach, felly nid yw'r Amodau penodol hyn gan Cymwysterau Cymru. |

| | |
|---|---|
| **E5 – Sicrwydd bod cymwysterau'n cydymffurfio â'r Amodau** | |
| E5.2 | Mae'r Amod hwn yn unigryw i CCEA Regulation. Mae'n nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer cyflwyno cymwysterau i CCEA Regulation ac aros am benderfyniad ynghylch achrediad cyn ei gyflwyno i'r Gofrestr. |
| **E7 – Cyfanswm Amser Cymhwyster** | |
| E7.3 | Defnyddir yr Amod hwn gan Ofqual a Cymwysterau Cymru i nodi gofynion aseinio Cyfanswm Oriau Cymhwyso. Mae Amod E7.3 Ofqual yn gofyn i sefydliad dyfarnu ddefnyddio Meini Prawf Cyfanswm Oriau Cymhwyso Ofqual; mae Amod E7.3 Cymwysterau Cymru yn gofyn i sefydliad dyfarnu ystyried gwybodaeth berthnasol a chofnodi ei benderfyniad ar Gyfanswm Oriau Cymhwyso.<br><br>Nid oes gan CCEA Regulation unrhyw ofynion cyfatebol. |
| E7.6 - E7.8<br><br>E7.5 – E7.7 - (Amodau CCEA Regulation) (Amodau i ddod i rym) | Mae'r Amodau hyn yn caniatáu i ofynion sy'n ymwneud â Chyfanswm Amser Cymhwyster gael eu cyflwyno'n raddol. Nid yw Ofqual a CCEA Regulation wedi cyflwyno'r gofynion hyn ar gyfer yr holl gymwysterau maen nhw'n eu rheoleiddio eto.<br><br>Nid oes angen y trefniadau pontio hyn yng Nghymru bellach, felly nid yw'r Amodau penodol hyn gan Cymwysterau Cymru. |
| **F1 – Gwybodaeth am ffioedd** | |
| F1.5 | Mae'r Amod hwn yn unigryw i Ofqual. Mae'n nodi gofynion Ofqual i wneud gwybodaeth am ffioedd yn hysbys i ddarpar brynwyr y tu allan i Loegr. |
| **G2 – Iaith asesu** | |
| G2.2 – G2.3 | Mae'r tri rheoleiddiwr yn nodi'r un gofynion yn y ddau Amod hwn ac eithrio'r ieithoedd a nodir. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol gyd-destunau mae pob rheoleiddiwr yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â'r iaith/ieithoedd a ddefnyddir mewn cymwysterau. |
| **G4 – Cadw cyfrinachedd deunyddiau asesu** | |
| G4.2<br><br>G4.3 | Mae'r tri rheoleiddiwr yn nodi'r un gofynion yn Amod G4.2 i sefydliadau dyfarnu gadw cyfrinachedd ynghylch asesu wrth ddarparu hyfforddiant neu ddeunyddiau hyfforddi.<br><br>Mae Amodau G4.2 a G4.3 Ofqual yn cynnwys gofynion unigryw sy'n gwahardd unigolion sydd â mynediad at wybodaeth gyfrinachol am asesiadau rhag cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi. Nid oes gan CCEA Regulation a Cymwysterau Cymru ofynion cyfatebol. |
| **H2 – Craffu ar Safonau Asesu Canolfan pan fo asesiad yn cael ei farcio gan Ganolfan** | |
| H2.3 – H2.5 | Mae pob rheoleiddiwr wedi mynd ati mewn ffordd bach yn wahanol wrth nodi ei ofynion ynghylch Cymedroli a chaiff hyn ei adlewyrchu yn rhifau a geiriad Amodau H2.3 – H2.5. |

| | |
|---|---|
| | Mae Amod H2.3 Ofqual a CCEA Regulation yn nodi gofynion i ddefnyddio Cymedroli. Mae'r gofynion hyn ychydig yn wahanol oherwydd mai dim ond Ofqual fydd yn cyhoeddi rhestr o'r asesiadau hynny sy'n gorfod cynnwys Cymedroli.<br><br>Mae Amodau Cymwysterau Cymru yn gofyn i sefydliadau dyfarnu i sefydlu strategaethau craffu ar asesiadau canolfannau, a gallai'r rhain gynnwys Cymedroli a/neu ffyrdd eraill o sicrhau ansawdd. Os oes enghreifftiau pan fo ofyniad i Gymedroli ar gyfer cymwysterau penodol, caiff rhain eu nodi yn yr Amodau neu feini prawf sy'n gymhwyster-benodol. Er enghraifft, Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cymwysterau penodol. |
| **I3 – Dyluniad a chynnwys tystysgrifau** | |
| I3.4 | Mae'r tri rheoleiddiwr yn gosod yr un gofynion yn yr Amod hwn heblaw am yr ieithoedd a nodwyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol gyd-destunau mae pob rheoleiddiwr yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â'r iaith/ieithoedd a ddefnyddir mewn cymwysterau. |
| **Diffiniadau** | |
| Newid Rheolaeth | Mae diffiniad Cymwysterau Cymru yn rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n dal pob darpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol ac yn egluro beth mae rheolaeth yn ei olygu pan fo'r sefydliad dyfarnu yn bartneriaeth neu'n unig fasnachwr. |
| Digwyddiad Methdalu | Mae diffiniad Cymwysterau Cymru yn rhoi gwybodaeth ychwanegol er mwyn nodi'n fwy eglur yn yr Amodau pan fo'n rhaid i sefydliadau dyfarnu eu hysbysu os yw'r sefydliad dyfarnu yn debygol o fod, neu'n credu ei fod yn debygol o fod yn fethdalwr neu'n destun achosion o'r fath. |
| Dysgwr | Mae diffiniad Cymwysterau Cymru yn adlewyrchu'r ffordd y caiff ei ddiffinio yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015. |
| Lefel | Mae Amodau Cymwysterau Cymru yn cynnwys term diffiniedig ar gyfer Lefel sy'n ymwneud â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol a ddefnyddir yng Nghymru – Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). |
| Cymwysterau Cymeradwy, Dynodedig ac Arall a reoleiddir | Mae'r termau diffinedig hyn yn unigryw i Cymwysterau Cymru ac yn egluro'r statws y gellir eu haseinio i gymwysterau yng Nghymru. |